Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Mawrth 2021

Annwyl Weinidog

Diolch am ddod i gyfarfod olaf y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn nhymor y Senedd hon.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi bod yn ystyried materion yn ymwneud â Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE (TCA). Rydym wedi dod yn fwyfwy pryderus am broblemau gydag allforio pysgod o'r DU i'r UE ac, yn benodol, allforio molysgiaid deufalf byw a gynaeafir yn wyllt.

Ers 1 Ionawr 2021, mae'r molysgiaid hyn a gaiff eu dal yn y DU ond nad ydynt yn barod i'w bwyta gan bobl wedi'u gwahardd rhag mynd i mewn i'r UE. Bellach, rhaid i folysgiaid nad ydynt o ddyfroedd 'Dosbarth A' gael triniaeth, megis pureiddio neu brosesu, cyn cael eu hallforio i'r UE. Caiff y gwaith o bennu dosbarth ardaloedd cynhyrchu'r molysgiaid hyn ei wneud gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n cymhwyso cyfraith a ddargedwir gan yr UE. Deallwn fod rhai dyfroedd yng Nghymru wedi cael eu hailddosbarthu gan yr Asiantaeth o 'Ddosbarth A' i 'Ddosbarth B'.

O ystyried pwysigrwydd posibl y mater hwn i hyfywedd y sector, mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch i fynd ar drywydd y materion a nodir isod:

1. Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r effaith y mae'r ailddosbarthu wedi'i chael ar y sector folysgiaid hyn yng Nghymru?

2. Dywedasoch wrthym fod swyddogion mewn deialog barhaus gyda'r Asiantaeth ynghylch ailddosbarthu dyfroedd Cymru. A allwch amlinellu natur y trafodaethau ac egluro pa ganlyniad yr ydych yn ceisio'i gyflawni?

3. Beth yw eich dealltwriaeth o statws yr ailddosbarthu? Ai dosbarthiad dros dro yw hwn a beth yw bwriad yr Asiantaeth ynghylch y statws hwn?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

4. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i wella ansawdd dyfroedd Cymru i sicrhau y cânt eu dosbarthu, yn y dyfodol, fel Dosbarth A?

5. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y fasnach barhaus gyda'r UE o ran molysgiaid deufalf byw o ddyfroedd Dosbarth B?

6. Os na ellir ailddechrau masnachu molysgiaid deufalf byw o ddyfroedd Dosbarth B, pa opsiynau yr ydych yn eu harchwilio i sicrhau hyfywedd economaidd y sector dyframaethu a physgod cregyn yn y tymor canolig?

7. Dywedasoch wrthym, oni bai y gellir ailddechrau masnachu molysgiaid deufalf byw, y byddai angen i gynhyrchwyr dyframaethu a physgod cregyn ystyried eu modelau busnes. Cyfeiriasoch hefyd at yr angen am ailadeiladu'r sector yn llwyr. Pa gamau yr ydych chi wedi'u cymryd, neu yr ydych yn bwriadu eu cymryd, i gefnogi'r sector yn hyn o beth?

Unwaith eto, hoffwn ddiolch ichi am y ffordd adeiladol yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor yn ystod tymor y Senedd hon ac yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pan rydych wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor yn fisol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, fel y gellir rhannu'r wybodaeth hanfodol hon â'r sector cyn y diddymiad.

O gofio bod y Pwyllgor wedi cynnal ei gyfarfod olaf o dymor y Senedd hon, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn darparu copi o'ch ymateb yn uniongyrchol at James Wilson, Cyfarwyddwr Bangor Mussel Producers Ltd, a Jon Parker, Cadeirydd Seafish Wales ac Arweinydd Datblygu Aquaculture Industry Wales Ltd.

Cofion cynnes



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English